Llywodraeth Cymru

# Templad cynllun wrth gefn ar gyfer crynoadau adar yn ystod achos o glefyd adar hysbysadwy

**Mae'n rhaid i'ch cynllun wrth gefn gynnwys yr wybodaeth a ganlyn:**

1. **Amheuaeth o glefyd adar hysbysadwy.**

Rhaid i chi roi gwybod am unrhyw amheuaeth o glefyd adar hysbysadwy ar unwaith i APHA. Rhaid i'ch cynllun esbonio sut y byddwch yn cadw unrhyw aderyn sy'n dangos arwyddion clinigol o glefyd i ffwrdd oddi wrth bob aderyn arall er mwyn lleihau'r risg o ledaenu'r clefyd. Rhaid i'ch cynllun nodi:

- Ble bydd yr aderyn/adar yr amheuir bod clefyd arno/arnynt yn cael ei ynysu/eu hynysu?
- Pa fesurau fyddwch yn eu cymryd i gyfyngu ar ledaeniad y clefyd? (e.e. mannau glanhau a diheintio)
- Efallai yr hoffech atodi cynllun o'r safle lle bydd y crynhoad yn cael ei gynnal, i nodi lle byddwch yn cadw neu yn ynysu adar os amheuir bod achos o glefyd adar hysbysadwy

2. **Cadw adar ar y safle nes bod arolygydd milfeddygol APHA yn rhoi cyfarwyddiadau**

Os amheuir bod clefyd yn y crynhoad, bydd APHA yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl adar, cyfarpar a cherbydau a ddefnyddir i gludo adar, aros ar y safle nes bod arolygydd milfeddygol yn diffinio amodau ar gyfer eu rhyddhau yn ddiogel. Rhaid i'ch cynllun esbonio:

- ble bydd adar yn cael eu cadw os oes rhaid iddynt aros ar y safle?
- sut y bydd porthiant a dŵr yn cael eu darparu i ddiwallu anghenion lles?
- mesurau i atal unrhyw symudiad anawdurdodedig o adar, cyfarpar neu gerbydau oddi ar y safle
- pa unigolion neu stiwardiaid fydd yn gyfrifol am oruchwylio'r adar
- sut y bydd rhai sy'n cymryd rhan neu'r rhai sy'n arddangos yn cael eu hysbysu?

3. **Trefniadau os yw'r crynhoad yn dod yn barth rheoli clefyd adar hysbysadwy**

Gallai parth rheoli clefyd gael ei ddatgan tra bod y crynhoad yn cael ei gynnal. Os bydd hyn yn digwydd, bydd symudiadau adar, cyfarpar a cherbydau a ddefnyddir i gludo adar oddi ar y safle yn cael eu cyfyngu a bydd angen trwydded i'w symud. Gall gymryd rhai dyddiau nes y gellir symud adar oddi ar y safle. Rhaid i'ch cynllun esbonio:

- y camau y byddwch yn eu cymryd i atal pob symudiad adar, cyfarpar a cherbydau cyn gynted ag y caiff parth rheoli clefyd ei ddatgan
- sut y bydd y rhai sy'n cymryd rhan neu'r rhai sy'n arddangos yn cael eu hysbysu bod symudiadau wedi'u cyfyngu ac angen trwydded
- lle bydd adar yn cael eu cadw'n ddiogel ar y safle nes bod APHA yn rhoi caniatâd iddynt symud

4. **Gwybodaeth arall berthnasol**

Dylech gynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol arall sydd gennych

5. **Manylion y crynhoad**

Lleoliad

Dyddiad (neu amrywiol ddyddiadau) y digwyddiad

**6. Manylion y trwyddedai**

Enw

Cyfeiriad (gan gynnwys cod post)

Rhif ffôn

7. Datganiad trwyddedai (ar gyfer ceisiadau trwydded benodol)

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi trafod y cynllun wrth gefn hwn gyda'r milfeddyg preifat a enwir isod.

Dyddiad llofnodi

Llofnod

**8. Llofnod milfeddyg (ar gyfer ceisiadau am drwydded benodol)**

- Rwy'n cadarnhau bod y trefniadau a ddisgrifir yn y cynllun hwn yn addas at ddibenion trefniadau cynllunio ar gyfer yr hyn a fydd yn digwydd os oes

amheuaeth neu gadarnhad o glefyd adar hysbysadwy yn y crynhoad neu'n agos ato.

Enw'r milfeddyg preifat

Enw'r filfeddygfa

Cyfeiriad y filfeddygfa, gan gynnwys cod post:

Rhif ffôn

Dyddiad trafod

Llofnod